Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed

Rhagfyr 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Ystod ac ansawdd y cymorth i ddysgwyr** | **6** |
| **Pontio i addysg bellach** | **6** |
| **Cymorth medrau sylfaenol** | **8** |
| **Defnyddio data i dargedu cymorth i ddysgwyr** | **9** |
| **Cymorth i ddysgwyr sy'n newid cyrsiau neu'n dechrau cyrsiau'n hwyr** | **10** |
| **Mesur cynnydd dysgwyr** | **10** |
| **Cymorth i ddysgwyr wrth iddynt symud ymlaen yn 18 oed** | **11** |
| **Cyfeiriadau** | **12** |
| **Atodiad 1 – Sail dystiolaeth** | **13** |
| **Atodiad 2 – Y fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith** | **14** |
| **Geirfa** | **16** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **16** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru am gyngor yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2014-2015. Mae'r adroddiad yn bwrw golwg ar ansawdd, cysondeb a didueddrwydd y gwasanaethau cymorth dysgwyr y mae colegau addysg bellach yn eu darparu i ddysgwyr. Mae gwasanaethau cymorth dysgwyr yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer dysgu, cymorth personol, a gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Yr adroddiad hwn yw'r ail o ddau. Cyhoeddodd Estyn yr adroddiad cyntaf ar wasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed yn 2014, a oedd yn ystyried y gwasanaethau cymorth dysgwyr y mae ysgolion yn eu darparu i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymweliadau â 12 coleg addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu addysg i ddysgwyr 16-19 oed. Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o ganlyniadau arolygu ac o'r adolygiadau blynyddol o berfformiad a gyhoeddodd Estyn ar bob sefydliad addysg bellach yn 2014 (gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion).

## Cefndir

Mae gan ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach, ond nid darparwyr dysgu yn y gwaith, ddyletswydd statudol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) i alluogi dysgwyr i gael at hyfforddiant ar gyfer dysgu, cymorth personol, a gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Bwriedir i'r gwasanaethau hyn gynorthwyo dysgwyr i oresgyn rhwystrau i'w dysgu, gwneud dewisiadau gwybodus a realistig, a gwireddu eu potensial a'u huchelgeisiau.

Mae Rhaglen Lywodraethu (2015a) Llywodraeth Cymru yn nodi bod cryfhau ymgysylltu a chyflogaeth ieuenctid yn flaenoriaeth i Gymru. Un o nodau Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â thlodi trwy helpu pobl ifanc i symud ymlaen o addysg orfodol i addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Wrth wraidd agenda diwygio addysg Llywodraeth Cymru y mae codi safonau llythrennedd a rhifedd, a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad gwael.

Mae Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu (2013) Llywodraeth Cymru yn amlinellu chwe elfen allweddol y bwriadwyd iddynt leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Dyma'r elfennau hyn:

- nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio
- gwell broceriaeth a chydgysylltu o ran cymorth
- prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc
- sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
- atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth
- gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc (t.6)

Mae'r arolwg hwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n camu ymlaen i addysg bellach, ac mae'n adolygu pa mor dda y mae colegau addysg bellach yn helpu dysgwyr i

bontio'n effeithiol o'r ysgol a sut mae colegau yn arfarnu ansawdd eu gwasanaethau cymorth. Yn benodol, bydd yr adroddiad yn ystyried pa mor dda y mae colegau:

- yn defnyddio tiwtorialau i gefnogi pobl ifanc
- yn cefnogi pobl ifanc wrth bontio o'r ysgol
- yn paru'r cwricwlwm ag anghenion dysgwyr newydd
- yn nodi ac yn cefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, gan gynnwys gweithio gyda Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill
- arfarnu effaith y cymorth a ddarparant a defnyddio'r deilliannau i wella ansawdd y cymorth i ddysgwyr

## Prif ganfyddiadau

1 Mae gan y rhan fwyaf o golegau ystod dda o gymorth ar waith ar gyfer eu dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae uwch reolwyr yn monitro perfformiad staff cymorth dysgu yn dda. Mae staff cymorth yn defnyddio ystod eang o ymyriadau i sicrhau bod dysgwyr yn gwella'u medrau sylfaenol a hanfodol. Mae systemau gwybodaeth reoli datblygedig gan y rhan fwyaf o golegau, sy'n olrhain presenoldeb, cynnydd a pherfformiad dysgwyr. Mae tiwtoriaid a dysgwyr unigol yn trafod eu perfformiad ac yn defnyddio'r data i gytuno ar dargedau gwella. Hefyd, defnyddiant diwtorialau i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau cynllunio gyrfa. Caiff rheolwyr wybodaeth dda am gynnydd dysgwyr.

2 Mae gwasanaethau cymorth dysgu yn cynnwys hyfforddwyr dysgu, mentoriaid, cwnselwyr, gwasanaethau caplaniaeth a chynghorwyr lles sy'n cynorthwyo dysgwyr â materion ariannol. Mae lleiafrif o golegau yn cyflogi arbenigwyr pwrpasol sy'n rhoi cyfarwyddyd gyrfaoedd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn gosod targedau clir i'r staff cymorth dysgu hyn. Mae systemau tiwtorial strwythuredig gan y rhan fwyaf o golegau. Mae tiwtoriaid yn defnyddio gwasanaethau cymorth dysgu i helpu dysgwyr sy'n ystyried gadael ac i wella rhagolygon dysgwyr o barhau mewn addysg.

3 Mae colegau yn asesu dysgwyr ac yn eu cynghori pan fyddant yn dechrau, er mwyn eu helpu i ddewis y cwrs mwyaf priodol a nodi pa gymorth, os o gwbl, y mae ei angen ar ddysgwyr i wella'u medrau sylfaenol. Ar draws Cymru, dywed colegau fod ar rhwng 20% a 35% o ddysgwyr angen cymorth â'u medrau llythrennedd neu rifedd i ymdopi â galwadau eu dewis cyrsiau. Mae bron pob un o'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth cynlluniedig, da wrth iddynt symud o'r ysgol i sefydliad addysg bellach. Cyflawnir hyn trwy weithio'n effeithiol ac agos mewn partneriaeth rhwng yr ysgol, y sefydliad a Gyrfa Cymru.

4 I ddarpar ddysgwyr nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ar y cyfan, mae colegau addysg bellach yn cydweithio'n dda ag ysgolion a Gyrfa Cymru i hyrwyddo'u darpariaeth. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'n ofynnol i gynghorwyr Gyrfa Cymru weithio gyda'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn unig a dywed lleiafrif o golegau fod ailstrwythuro gwasanaethau Gyrfa Cymru fel hyn wedi lleihau'r graddau y mae dysgwyr yn derbyn cyfarwyddyd ac arweiniad diduedd [wyneb yn wyneb].

5 Ym mron pob coleg, mae arweinwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ar lefelau sy'n cynnig hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr. Maent yn monitro dysgwyr ac yn nodi ac yn cynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w cyrsiau. Fel arfer, caiff dysgwyr yr hyblygrwydd i newid eu dewis o gyrsiau yn gynnar ac mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i barhau ag addysg. Mae cyfraddau cadw yn dda.

6 Mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau da i gefnogi dysgwyr ôl-16 sy'n ymuno'n hwyr yn ystod y flwyddyn. Maent wedi nodi bod dysgwyr sy'n dechrau'n hwyr yn tueddu i adael cyn cwblhau eu hastudiaethau ac maent wedi cyflwyno mentrau fel derbyniadau strwythuredig ym mis Ionawr neu gymorth mentora targedig i ddysgwr sy'n dechrau'n hwyrach yn nhymor yr hydref. Cyflwynwyd llawer o'r mentrau hyn yn ddiweddar ac mae'n rhy gynnar eto i farnu eu heffaith.

7 Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio systemau data i gael gwybod am berfformiad a chynnydd dysgwyr, ac maent yn troi at adborth dysgwyr i wella darpariaeth a chymorth. Mae ychydig golegau'n datblygu systemau i fesur cynnydd neu 'bellter teithio' dysgwyr yn ystod eu cyrsiau, ond nid oes dull cyffredin ledled Cymru. Dim ond ychydig bach iawn o golegau sydd â system sy'n defnyddio data i fonitro pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at yr amcanion a amlinellir yn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (2008) Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2).

8 Ar y cyfan, mae colegau'n rhoi cymorth priodol i ddysgwyr er mwyn iddynt symud ymlaen i'w cyrchfan nesaf. Mae tiwtoriaid a staff darlithio yn defnyddio'u gwybodaeth dechnegol a galwedigaethol i helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau priodol ynghylch dilyniant. Mae gan lawer o ddysgwyr ymwybyddiaeth dda o'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael iddynt a theimlant fod staff yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu cam nesaf.

9 Mae colegau'n casglu gwybodaeth am gyrchfannau bwriadedig dysgwyr pan fyddant yn gadael, ond ni chaiff y data hwn ei gasglu'n ddigon dibynadwy i alluogi arfarniad defnyddiol o gynllunio gyrfaol dysgwyr nac i gymharu cynnydd ag ymadawyr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n defnyddio data am gyrchfannau yn sylfaen ar gyfer arfarnu llwyddiant eu darpariaeth. Fodd bynnag, ni ddefnyddir dull cyffredin gan golegau ar draws Cymru. Tra bod data ysgolion am gyrchfannau yn seiliedig ar olrhain dysgwyr i wirio'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael yr ysgol, mae data am gyrchfannau ymadawyr sefydliadau addysg bellach wedi'i seilio ar fwriad penodedig dysgwyr. Dim ond lleiafrif o golegau sy'n ymdrechu'n systematig i fynd ar drywydd dysgwyr er mwyn cadarnhau eu cyrchfannau.

## Argymhellion

Dylai colegau addysg bellach:

A1 ddatblygu dull cyffredin o fesur cyflawniadau dysgwyr, gan gynnwys eu cynnydd yn erbyn yr amcanion a amlinellir yn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (2008) Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2)

Dylai awdurdodau lleol:

A2 wneud yn siŵr bod pob dysgwyr yn gwybod am yr ystod gyfan o opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddynt

A3 gwneud yn siŵr bod colegau'n cael gwybodaeth amserol am gyflawniadau ac anghenion cymorth dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg bellach

Dylai Llywodraeth Cymru:

A4 weithio gydag ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu system genedlaethol ar gyfer casglu data ar gyrchfannau pobl ifanc 18 oed

## Ystod ac ansawdd cymorth i ddysgwyr

10 Mae arweinwyr colegau yn rhoi amrywiaeth eang o ymyriadau cymorth ar waith i ddysgwyr. Mae'r gwasanaethau cymorth dysgu hyn yn cynnwys hyfforddwyr dysgu, mentoriaid, cwnselwyr, gwasanaethau caplaniaeth a chynghorwyr lles i gynorthwyo dysgwyr â materion ariannol. Mae lleiafrif o golegau yn cyflogi arbenigwyr pwrpasol sy'n rhoi cyfarwyddyd gyrfaoedd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn gosod targedau perfformio clir i staff cymorth dysgu ac mae uwch reolwr yn monitro'r rhain yn rheolaidd. Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn gyson i gefnogi dysgwyr sy'n ystyried gadael. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael lefel dda o gymorth a bod y sefydliad yn ymyrryd yn briodol mewn ffordd sy'n gwella rhagolygon dysgwyr o barhau mewn addysg neu hyfforddiant.

11 Mae gan y rhan fwyaf o golegau systemau tiwtorial strwythuredig a gyflwynir gan diwtoriaid hyfforddedig. O fewn y rhain, mae tiwtoriaid yn gweithio gyda dysgwyr i'w cefnogi ac i osod targedau sy'n anelu at ddatblygu eu medrau cynllunio gyrfaol. Mae tiwtoriaid yn arwain dysgwyr yn dda ac yn defnyddio cysylltiadau galwedigaethol yn dda i helpu dysgwyr i ennill gwybodaeth alwedigaethol berthnasol a, lle y bo'n briodol i'w cwrs, profiad gwaith. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn defnyddio tiwtorialau i ategu'r profiad a gaiff dysgwyr o'u cyrsiau, i'w helpu i ddatblygu'r medrau sydd wedi'u hamlinellu yn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (2008) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

12 Mae colegau'n cydweithio'n dda â chynghorwyr Gyrfa Cymru hefyd. Mae llawer o golegau yn derbyn cymorth gan gynghorwyr Gyrfa Cymru i helpu eu dysgwyr mwyaf agored i niwed. Mae trefniadau effeithiol gan staff y gwasanaeth cymorth dysgwyr i gyfeirio darpar ymadawyr at gynghorwyr Gyrfa Cymru er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddysgwyr yn peidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. Hefyd, caiff cynghorwyr eu gwahodd i ddiwrnodau agored a digwyddiadau cofrestru fel y gallant roi cyngor annibynnol i ddarpar ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'n ofynnol erbyn hyn i gynghorwyr Gyrfa Cymru weithio gyda'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn unig a dywed lleiafrif o golegau bod llai o arweiniad a chyngor diduedd ar gael i lawer o ddysgwyr o ganlyniad i ailstrwythuro Gyrfa Cymru yn y modd hwn. Er enghraifft, yn Sir y Fflint y llynedd, darganfu Coleg Cambria gwymp sylweddol yn nifer y rhai a gafodd eu recriwtio i raglenni galwedigaethol ar sail amser llawn ac mae'n priodoli hyn i'r ffaith bod llai o ddysgwyr yn cael cyngor annibynnol ar yrfaoedd yn yr ysgol. Hefyd, darganfu fod nifer y bobl a oedd yn cofrestru funud olaf ac yn hwyr yn uwch o lawer nag yn y blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nid yw colegau eraill, fel Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Sir Benfro, wedi nodi unrhyw effaith weladwy yn sgil y newidiadau i wasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol i ddysgwyr.

## Pontio i addysg bellach

13 Mae'r rhan fwyaf o golegau ac ysgolion yn rheoli trefniadau pontio yn effeithiol ar gyfer y dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd angen cymorth arbenigol efallai. Yn gyffredinol, mae staff mewn ysgolion, colegau a chynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod dilyniant y dysgwyr hyn wedi'i gynllunio'n dda, yn gynnar. Gwnânt yn siŵr bod cymhorthion dysgu neu addasiadau

angenrheidiol wedi'u darparu mewn da bryd fel bod y dysgwyr yn ymgynefino â'r sefydliad yn gyflym ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. At ei gilydd, nid yw'r trefniadau pontio ar gyfer darpar ddysgwyr heb anghenion dysgu ychwanegol wedi'u cydgysylltu na'u rheoli cystal.

14 Mae gan bob coleg drefniadau wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer hyrwyddo'u cyrsiau i ddysgwyr sy'n paratoi i ymadael â'r ysgol yn 16 oed. Maent yn cynnal diwrnodau agored ac yn rhoi cyhoeddusrwydd da iddynt. Mynychant nosweithiau agored ysgolion a ffeiriau gyrfaoedd yn rheolaidd. Mae llawer yn mynd â'u dysgwyr presennol gyda nhw i'r digwyddiadau hyn fel y gallant siarad yn anffurfiol â dysgwyr ysgol am fywyd coleg a'u gwaith. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi cipolwg i ddysgwyr o sut y gall dysgu mewn colegau fod yn wahanol i ddysgu yn yr ysgol.

15 Mae gan lawer o golegau amrywiaeth eang o raglenni fel bod dysgwyr yn ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd o Flwyddyn 9 ymlaen. Er enghraifft, mae Coleg Sir Gâr yn cynnig cyrsiau arweinyddiaeth i ddysgwyr Blwyddyn 9, ynghyd â diwrnodau blasu i ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae'r rhaglenni'n helpu dysgwyr i ymgyfarwyddo â'r sefydliad a'u helpu i ymgynefino'n fwy effeithiol ar ôl Blwyddyn 11.

16 Mae'r rhan fwyaf o golegau'n cynnig digwyddiadau blasu i ddysgwyr gael blas ar gyrsiau cyn ymrwymo iddynt. Mae dysgwyr o'r farn bod y rhain yn ddefnyddiol ar gyfer helpu i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o gynnwys cyrsiau. Hefyd, rhoddant gipolwg cliriach i ddysgwyr i'r medrau y bydd arnynt eu hangen i ymdopi â gwaith cwrs mewn addysg bellach.

17 Mae mwyafrif o golegau ac ysgolion yn gwneud defnydd da o bartneriaethau lleol i gynnig darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed sydd yn yr ysgol o hyd. Er enghraifft, mae dros 900 o ddysgwyr 14-16 oed o ysgolion yn mynychu Coleg Cambria bob wythnos, gan gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o bynciau sy'n cynnwys peirianneg, adeiladu, Sbaeneg a'r gyfraith. Mae'r dull hwn wedi galluogi ysgolion a rhwydweithiau dysgu i ehangu'r dewis sydd ar gael i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mae ychydig dros hanner y dysgwyr hyn yn parhau â'u haddysg ôl-16 gyda'r darparwr, yn rhannol oherwydd eu bod wedi cael cyfle i brofi bywyd coleg.

18 Mae ychydig enghreifftiau o golegau yn datblygu partneriaethau dychmygus sy'n hwyluso'r pontio ar gyfer dysgwyr ac sy'n gwella'u cysylltiad ag addysg. O ganlyniad i bartneriaeth Coleg y Cymoedd â Choleg Dewi Sant ac Ysgol Gatholig Cardinal Newman, mae darpariaeth Blwyddyn 12 Ysgol Cardinal Newman yn cael ei darparu yng Ngholeg y Cymoedd, gan alluogi'r dysgwyr hynny i gynnal eu cysylltiad â darpariaeth ffydd.

19 Mae pob coleg wedi datblygu protocolau rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol, ond gan amlaf, megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu'r rhain ac nid ydynt yn effeithiol eto. Heblaw ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dywed y rhan fwyaf o golegau nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am berfformiad addysg, ymddygiad a phresenoldeb dysgwyr. Dywedant fod hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd iddynt wneud cynlluniau digonol adeg mynediad i fodloni anghenion pob dysgwr.

20 Mae'r trefniant ffurfiol rhwng Rhwydwaith Partneriaeth 14-19 Gwynedd a Môn a Grŵp Llandrillo Menai yn galluogi staff y sefydliad i gael at ddata am ysgolion y mae'r

bartneriaeth yn ei chadw am ddysgwyr. Hefyd, gall Coleg Menai fynd at ddata am ddisgyblion a gedwir ar systemau gwybodaeth reoli ysgolion. Gall y sefydliad edrych ar ddata am bresenoldeb, anghenion dysgu ac amgylchiadau arbennig eraill dysgwyr. Mae'r data hwn yn rhoi gwybodaeth gywir i'w defnyddio fel sylfaen ar gyfer asesu addasrwydd dysgwyr ar gyfer cyrsiau a rhoi cyfarwyddyd mwy gwybodus sy'n helpu dysgwyr i nodi'r cwrs mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion.

21 Yn ddiweddar, mae awdurdod lleol Merthyr Tudful wedi symud yr holl ddarpariaeth addysg ôl-16 i ddarpariaeth drydyddol, sydd wedi symleiddio cyfathrebu rhwng ysgolion a'r coleg. Mae'r protocolau newydd ar rannu gwybodaeth yn gwella llif gwybodaeth am ddysgwyr. Mae'n rhy gynnar eto i weld effaith hyn ar lwyddiant dysgwyr, ond mae'r coleg o'r farn bod dysgwyr yn elwa o'r cyngor mwy gwybodus y mae'n ei roi.

22 Ar y cyfan, mae colegau'n rhoi cyngor ac arweiniad da i ddysgwyr sy'n dechrau gyda nhw. Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n gwneud cais i goleg yn cael cyfweliad cyn dechrau eu cwrs. Yn y cyfweliadau cychwynnol hyn, mae staff yn trafod goblygiadau gyrfaol y cyrsiau y mae dysgwyr yn dymuno'u dilyn ac yn helpu dysgwyr i fyfyrio ar briodoldeb eu dewis o ystyried eu perfformiad academaidd.

23 Mae gan bob coleg drefniadau addas ar gyfer dewis a recriwtio. Maent yn cymryd gofal i baru medrau a galluoedd dysgwyr â galwadau'r cyrsiau y gobeithiant eu dilyn.

## Cymorth medrau sylfaenol

24 Ar draws Cymru, dywed colegau fod ar rhwng 20% a 35% o ddysgwyr angen cymorth â'u medrau llythrennedd neu rifedd i ymdopi â galwadau eu dewis cyrsiau. Mae arweinwyr sefydliadau yn ymrwymo adnoddau yn effeithiol i gefnogi dysgwyr y mae angen iddynt ddatblygu eu medrau sylfaenol. Mae asesu cychwynnol systematig yn rhoi darlun clir i golegau o ba ddysgwyr sydd angen cymorth. Fel arfer, mae colegau'n cynnal asesiadau cychwynnol cyn neu yn ystod cyfnod ymsefydlu dysgwyr. Mae hyn yn rhan bwysig o'r broses ddewis, gan ei bod yn galluogi'r sefydliad i nodi pa ddysgwyr y mae angen eu helpu i wella'u medrau'n sylfaenol.

25 Er enghraifft, mae Coleg Ceredigion yn asesu medrau sylfaenol dysgwyr ar adeg eu cyfweliad dewis cyntaf. Mae hyn yn galluogi'r coleg i nodi'n gynnar y dysgwyr y mae angen help ychwanegol arnynt â medrau sylfaenol. Cynigir cyrsiau 'dal i fyny' dwys i'r dysgwyr hyn yn ystod yr haf. Mae hyn yn gwella'u siawns o bontio'n llwyddiannus i addysg bellach.

26 Mae colegau'n rheoli'r gwaith o gyflwyno'r cymorth hwn yn ddigon hyblyg i alluogi dysgwyr i fynd i sesiynau galw heibio neu gymorth wedi'i rhaglenni, fel y bo'n addas at anghenion unigolion. Pan fydd dysgwyr yn manteisio ar gymorth i wella'u llythrennedd a rhifedd, mae'r rhan fwyaf o golegau yn monitro'u cynnydd yn dda.

27 Mae systemau sefydledig ym mron pob coleg i gefnogi dysgwyr y mae arnynt angen datblygu eu medrau hanfodol, cyfathrebu, cymhwyso rhif a llythrennedd digidol, i lefel un. Cyflawnant hyn trwy ddarpariaeth ar wahân a chymorth gan diwtoriaid. Mae'r

rhan fwyaf o golegau yn mesur datblygiad y medrau hyn gan ddysgwyr yn dda, ond nid yw medrau llythrennedd a rhifedd uwch yn cael eu holrhain a'u datblygu mor effeithiol ar y cyfan.

28 Mae bron pob coleg yn mesur a dadansoddi effaith cymorth ar ddatblygu medrau sylfaenol a hanfodol dysgwyr. Mae bron pob un yn cyflwyno adroddiadau strategol yn rheolaidd i uwch reolwyr i ddangos y cynnydd a wna dysgwyr yn y maes hwn. Mae rheolwyr yn defnyddio'r adroddiadau hyn yn dda i ddatblygu a gwella darpariaeth.

## Defnyddio data i dargedu cymorth i ddysgwyr

29 Mae cyfradd y dysgwyr o ran cwblhau cyrsiau mewn colegau yn dda ar y cyfan. Ar gyfartaledd, cwblhawyd 92% o gyrsiau yn 2013/14, (Llywodraeth Cymru, 2015b). I leihau nifer y dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i gyrsiau, mae'r rhan fwyaf o golegau yn monitro dysgwyr yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y coleg. Mae gan lawer ohonynt ddulliau i nodi a monitro dysgwyr a allai fod mewn perygl o adael yn gynnar. Er enghraifft, defnyddiodd Grŵp Llandrillo Menai gyllid prosiect Ewropeaidd i ddatblygu 'matrics ymgysylltu' defnyddiol sy'n helpu i nodi dysgwyr agored i niwed sydd mewn perygl o adael cyrsiau yn gynnar. Mae staff yn neilltuo mentor i ddysgwyr penodol. Mae hyn yn helpu 84% o'r dysgwyr hyn i gwblhau eu cyrsiau a llwyddo i gyflawni eu nodau dysgu.

30 Mae systemau gwybodaeth reoli defnyddiol gan y rhan fwyaf o golegau, sy'n eu galluogi i olrhain presenoldeb, cynnydd a pherfformiad dysgwyr. Gwna systemau tiwtorial ddefnydd effeithiol o'r data hwn ac mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth yn dda gyda dysgwyr unigol i drafod eu cynnydd a chytuno ar dargedau dysgu.

31 Mae staff yn ymyrryd yn brydlon os daw patrymau i'r amlwg sy'n awgrymu bod angen cymorth ar unigolion. Mae'r holl golegau yn monitro perfformiad grwpiau agored i niwed, fel dysgwyr ethnig lleiafrifol neu blant sy'n derbyn gofal/ymadawyr gofal yn dda ac mae systemau da ar waith gan y rhan fwyaf ohonynt i sicrhau bod cymorth targedig i'r grwpiau hyn yn effeithiol.

32 Mae'r holl golegau'n monitro presenoldeb dysgwyr yn drylwyr, gan dalu sylw manwl yn benodol i'r rhai y mae patrwm eu presenoldeb yn awgrymu risg y gallent roi'r gorau i'r cwrs. Ym mron pob achos, mae rheolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd ar y rhesymau dros absenoldeb unigolion a'r hyn a wnaeth staff i gynorthwyo'r dysgwyr hyn i barhau i ymgysylltu. O ganlyniad i'r dull hwn, fel arfer, mae dysgwyr yn cael cymorth neu arweiniad prydlon i'w helpu i wella'u presenoldeb.

33 Mae llawer o golegau yn annog dysgwyr i edrych ar ddata y mae gan y sefydliad arnynt trwy fynd at eu cofnodion personol trwy byrth i ddysgwyr ar wefannau sefydliadau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar y cynnydd y disgwylir iddynt ei wneud. I lawer ohonynt, mae hyn yn eu symbylu ac yn ddefnyddiol wrth gynllunio'u gwaith cwrs.

34 Mae llawer o golegau yn defnyddio systemau i gasglu adborth a gwybodaeth am farn dysgwyr yn briodol ac yn rheolaidd. Mae uwch arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu'r adborth hwn ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar gynllunio'r cwricwlwm, i addasu gwasanaethau cymorth i ateb anghenion dysgwyr ac i wella'r ddarpariaeth.

## Cymorth i ddysgwyr sy'n newid cyrsiau neu'n dechrau'n hwyr

35 Mae lleiafrif o ddysgwyr yn newid cyrsiau yn ystod wyth wythnos gyntaf eu tymor cyntaf yn eu sefydliad newydd. Er na chaiff data ar y newidiadau hyn ei ddadansoddi'n gyson ar draws colegau, mae llawer o'r dysgwyr newydd hyn wedi cael cyfle i ailarfarnu pa mor dda y mae eu dewis cyrsiau yn cyfateb i'w nodau neu eu gallu. Mae hyd a lled y ddarpariaeth a gynigir gan golegau, ar amrywiaeth o lefelau, yn galluogi'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn i symud yn llwyddiannus i gyrsiau lefel uwch neu is, neu gyrsiau sydd â chynnwys neu ffocws galwedigaethol gwahanol. Mae'r cyfleoedd i newid cyrsiau yn yr un sefydliad yn helpu'r dysgwyr hyn i barhau i ymgysylltu â dysgu.

36 Mae colegau'n nodi bod y dysgwyr hynny sy'n dechrau cyrsiau'n hwyr yn tueddu i roi'r gorau iddi cyn cwblhau eu hastudiaethau. Mae llawer ohonynt wedi cyflwyno mentrau fel derbyniadau strwythuredig ym mis Ionawr i gefnogi dechreuwyr hwyr ymhellach. Mae trefniadau da gan y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer cefnogi'r dysgwyr hyn, yn aml gan ddefnyddio hyfforddwyr dysgu neu fentoriaid i sicrhau y gall dysgwyr ddal i fyny ar unrhyw waith y maent wedi'i golli. Nid yw'n ofynnol i golegau gasglu data sy'n nodi a yw dysgwyr yn dechrau cyrsiau yn hwyr ac nid oes dadansoddi i ddangos a yw dysgwyr sy'n dechrau cyrsiau yn hwyr yn ennill eu cymwysterau ar yr un cyflymder â dysgwyr eraill.

37 Mae prosesau da ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ar waith ym mron pob coleg. O ganlyniad, maent yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ar lefelau sy'n rhoi dewis hyblyg i ddysgwyr. Ym mwyafrif y colegau, mae'r ystod hon o ddarpariaeth wedi'i hymestyn yn ddiweddar i gyfrif am y dysgwyr ôl-16 sy'n ymuno'n hwyr yn ystod y flwyddyn. Yn aml, mae'r derbyniad hwn yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn amrywiaeth o weithgareddau wedi'u haddasu yn ôl eu diddordebau neu eu hanghenion dilyniant, fel eu bod yn parhau i gymryd rhan mewn addysg ac yn gallu symud ymlaen i gwrs prif ffrwd yn y mis Medi canlynol. Mae hyn yn ddefnyddiol yn y tymor byr, trwy gynnal cysylltiad dysgwyr â dysgu a sicrhau eu bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.

## Mesur cynnydd dysgwyr

38 Mae llawer o golegau yn mesur cynnydd, neu 'bellter teithio', dysgwyr Safon Uwch yn ystod eu cyrsiau. Mae ychydig ohonynt yn datblygu systemau i fesur cynnydd dysgwyr yn ystod cyrsiau eraill. Mae hyn yn fenter ddefnyddiol wrth i golegau ddarparu ar gyfer dysgwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd a gallu, a gall helpu i symbylu dysgwyr a rhoi data gwerthfawr i arweinwyr. Fodd bynnag, nid yw dulliau eto'n gyson nac wedi'u gwreiddio ar draws Cymru i sicrhau bod ffyrdd cyffredin o fesur yr agwedd hon ar gynnydd dysgwyr.

39 Mae gan lawer o ddysgwyr ymwybyddiaeth dda o'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o'r farn bod staff yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam dilynol nesaf. Fodd bynnag, dim ond ychydig bach iawn o golegau sydd â data neu

system strategol glir i fonitro pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at yr amcanion sydd wedi'u cyflwyno yn y Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

40 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn casglu gwybodaeth am gyrchfannau arfaethedig dysgwyr pan fyddant yn gadael, ond ni chesglir y data hwn yn ddigon dibynadwy fel y gellir gwerthuso effaith cynllunio gyrfaol dysgwyr na chymharu cynnydd ag ymadawyr ysgol yn ddefnyddiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio data am gyrchfannau yn sylfaen ar gyfer arfarnu llwyddiant eu darpariaeth. Fodd bynnag, ni ddefnyddir dull cyson gan golegau ar draws Cymru. Tra bod data ysgolion ar gyrchfannau yn seiliedig ar gysylltiad â dysgwyr ar ôl iddynt adael yr ysgol, mae data am gyrchfannau ymadawyr sefydliadau wedi'i seilio ar yr hyn y dywedant yw eu bwriad. Dim ond lleiafrif o golegau sy'n gwneud ymdrechion systematig i fynd ar drywydd dysgwyr i gadarnhau eu cyrchfannau.

## Cymorth i ddysgwyr wrth iddynt symud ymlaen yn 18 oed

41 Yn gyffredinol, mae colegau'n rhoi cymorth priodol i ddysgwyr bontio i'w cyrchfan nesaf yn 18 oed. Mae tiwtoriaid a staff darlithio yn defnyddio'u gwybodaeth dechnegol a galwedigaethol yn effeithiol i helpu dysgwyr wneud penderfyniadau am eu dilyniant. Ar y cyfan, mae gan ddysgwyr wybodaeth dda am opsiynau addysg uwch neu'r opsiynau dilyniant y gall y sefydliad ei hun eu darparu. Mae tiwtoriaid yn cynorthwyo'n dda o ran rhoi'r cyngor hwn. Mae Grŵp Llandrillo Menai yn ymestyn ei gymorth i ddysgwyr sy'n anelu at addysg uwch trwy brynu gwasanaeth cynghori ychwanegol gan Gyrfa Cymru. Mae ymwybyddiaeth dda o'r farchnad lafur leol gan lawer o ddysgwyr galwedigaethol, ac mae'r wybodaeth a gânt gan diwtoriaid yn adeiladu ar hyn.

## Rhestr Cyfeiriadau

Estyn (2014) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gwasanaethau-cymorth-dysgwyr-i-ddisgyblion-14-16-oed-mai-2014 [Cyrchwyd Medi 2015].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.* [mccc 1]. [Ar-lein]. Llundain: Y Llyfrfa. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/pdfs/mwa_20090001_we.pdf [Cyrchwyd Hydref 2014].

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130722-careers-world-of-work-cy.pdf [Cyrchwyd Hydref 2014].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013) *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cynllun Gweithredu*. [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf [Cyrchwyd Hydref 2014].

Llywodraeth Cymru (2015a) *Rhaglen Lywodraethu.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: http://gov.wales/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy [Cyrchwyd Medi 2015].

Llywodraeth Cymru (2015b) *Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned: 2013/14.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150331-learner-outcome-measures-further-education-work-based-adult-community-learning-2013-14-en.pdf [Saesneg yn unig] [Cyrchwyd Mawrth 2015].

## Atodiad 1 – Sylfaen dystiolaeth

Daw'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn o ymweliadau â'r canlynol:

- Coleg Penybont
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Grŵp Llandrillo Menai
- Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Cambria
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp NPTC

Mae'r sampl hon yn cynrychioli pob coleg yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar ddarparu addysg i ddysgwyr 16-19 oed, heblaw Coleg Caerdydd a'r Fro, a oedd yn paratoi ar gyfer arolygiad.

Yn yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ddysgwyr
- yn cynnal trafodaethau ag arweinwyr canol ac uwch
- yn cyfarfod â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth dysgwyr

Defnyddiodd arolygwyr dystiolaeth ychwanegol o:

- adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd gan Estyn ar www.estyn.llyw.cymru
- adroddiadau adolygiadau blynyddol o berfformiad a gyhoeddwyd gan Estyn ar www.estyn.llyw.cymru
- data ar gyrchfan ymadawyr sefydliadau a data cyhoeddedig ar gyrchfannau ymadawyr ysgol yn 18 oed

## Atodiad 2 – Y fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith

Mae'r amcanion dysgu ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd wedi'u hamlinellu yn Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru, wedi'u rhestru isod.

**Sgiliau**

**Dylid rhoi'r cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1** weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol mewn ystod eang o leoliadau

**2** gwrando'n astud ac ymateb yn effeithiol, gan gyfrannu'n arwyddocaol i drafodaethau

**3** cael gafael annibynnol ar ystod eang o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chyngor

**4** dethol, crynhoi a chyfosod syniadau a gwybodaeth allweddol

**5** dethol, cymharu a dehongli data o amryw o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain

**6** defnyddio TGCh yn ddetholus ac yn effeithlon i ganfod, datblygu a chyfosod gwybodaeth fel ei bod yn addas at ddiben

**7** archwilio eu tybiaethau a'u dyheadau eu hunain a phobl eraill a gwneud y defnydd gorau o hyn wrth wneud penderfyniadau

**8** defnyddio dulliau arloesol i nodi cyfleoedd a datrys problemau

**9** cyfathrebu'n hyderus ac yn ddealladwy yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaoedd a'r byd gwaith mewn ystod eang o gyd-destunau

**10** cyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain yn effeithiol mewn amryw ddulliau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd

**11** cynllunio, gosod targedau ar draws sawl cyfnod amser ac adolygu/myfyrio ynghylch dysgu

**12** rheoli amser yn annibynnol a chwrdd â therfynau amser tynn

**13** addasu i sefyllfaoedd newydd heriol

**14** gallu cymhwyso dysgu mewn ystod eang o leoliadau cyfarwydd ac anghyfarwydd

**15** dangos ymwybyddiaeth gynyddol am anghenion cwsmeriaid

**Ystod**

**Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:**

**Cyflawniad personol**

**1** adolygu eu cyflawniadau a'u cynlluniau gwaith/gyrfa/astudio

**2** parhau i ddatblygu curriculum vitae (CV) parhaus sy'n seiliedig ar eu cyflawniadau, eu profiadau, eu diddordebau a'u sgiliau er mwyn cryfhau eu cyflogadwyedd

**Ceisio gwybodaeth**

**3** ymchwilio a gwerthuso ystod o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur yng Nghymru

**4** archwilio sut y gallai cyfleoedd ym Mhrydain, Ewrop a gweddill y byd effeithio ar eu syniadau gyrfa

**5** ehangu eu gwybodaeth am gyfleoedd busnes a hunangyflogaeth er mwyn cyfoethogi eu gorwelion gyrfa

**6** trafod effaith tueddiadau cyfredol mewn patrymau gwaith ar eu cynlluniau gyrfa

**Deall y byd gwaith**

**7** trafod y manteision y gall amrywiaeth eu cyflwyno i'r gweithle a'r anfanteision y gellir eu creu drwy stereoteipio

**8** ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuraidd at waith a chreu cyfoeth

**9** deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a gwybod sut i ddilyn arferion gwaith diogel

**10** defnyddio profiadau â ffocws ar waith i gael dealltwriaeth well o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac unrhyw oblygiadau i'w cynlluniau gyrfa/gwaith

**Arweiniad**

**11** cael gafael ar a dadansoddi canllawiau realistig, diduedd ar lwybrau addysg/gyrfa/gwaith

**12** ystyried goblygiadau eu syniadau gyrfa o ran eu sefyllfa ariannol a'u ffordd o fyw

**Gwneud a gweithredu penderfyniadau**

**13** deall, dadansoddi a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith

**14** gallu egluro a chyfiawnhau eu dewisiadau i'w cyfoedion ac i oedolion priodol

**15** adolygu, cyfosod a chyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain mewn perthynas â dysgu a gwaith er mwyn cyd-drafod cynllun gyrfa

**16** hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol gan gynnwys ceisiadau a mynychu cyfweliadau

## Geirfa

**Lefel 1**
Cymhwyster sy'n cyfateb i raddau TGAU D-G

**Cymhwyster Lefel 2**
Cymhwyster sy'n cyfateb i raddau TGAU A*-C

**Cymhwyster Lefel 3**
Cymhwyster sy'n cyfateb i raddau Safon Uwch A*-E

**NEET**
Ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant

**Esboniad o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio'n harfarniadau**

Y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y golofn chwith isod yw'r rhai a ddefnyddiwn i ddisgrifio ein harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl gywir.

| | |
|---|---|
| bron bob un | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | yn agos at 50% |
| lleiafrif | o dan 40% |
| ychydig | o dan 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Alun Connick | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Stephen Davies | Aelod tîm |
| Vanessa Morgan | Aelod tîm |